EISTEDDFOD 2025

## 603. GWOBR GOFFA LLWYD O'R BRYN
## LLEFARU UNIGOL 21 OED A THROSODD

'Pont', Tudur Dylan Jones, ynghyd â darn(au) hunanddewisiad. Gellir cyflwyno'r darn gosod ar ddechrau neu ar ddiwedd y perfformiad, neu ei blethu gyda'r darn(au) hunanddewisiad.

Ni ddylai'r perfformiad cyfan fod yn hwy nag 8 munud.

### PONT

Doedd dim ond afon, a dim ond dwy lan
a'r gwynt yn chwarae cuddio rhwng y brwyn
ac ambell gerddwr mentrus yn y man
yn dod am sgowt i weld llechweddau'r ŵyn.
A rhywun rywdro wedi sylwi bod
yr angen am gael llwybr i rywle draw
er mwyn i draed yr oesoedd fynd a dod
i gae ac aelwyd dros y nant islaw.
Pa ddwylo ddoe a roddodd faen ar faen?
Pa bensaer ddaeth â'i gynllun ers cyn co'
i osod trefn ar lethrau'r oes o'r blaen
a chwilio cerrig nes cael carreg glo?
'Ddaw cerddwr fory fyth i wybod, gan
nad oes ond afon, a dim ond dwy lan.

**TUDUR DYLAN JONES**